

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu



Nodiadau o'r 15fed cyfarfod ar ddydd Mercher 10 Rhagfyr 2025.



Cafodd y cyfarfod ei gynnal ar Zoom.

Ynglŷn â'r ddogfen hon



Mae hon yn fersiwn hawdd ei darllen. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen las trwm** yn anodd eu deall. Maent wedi cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 24**.



Pobl a ddaeth i'r cyfarfod:

Sioned Williams AS – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd

Sam Williams – Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd

Sara Pickard – Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd

Adele Rose-Morgan – Rhiant

Angharad Griffiths – Senedd

Beth Rees – Anabledd Dysgu Cymru

Beth Thomas – Cyngor Abertawe

Claire Hathway – Gwasanaethau Plant Sir Fynwy

Daniel Bray

Danielle Richards – Cyngor Abertawe

Geraint Jones-Griffiths – Anabledd Dysgu Cymru

Gillian Eastwood – Cartref Ni Cyf

Ivan Walker – Cwmni

James Dash – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

Joe Powell – Pobl yn Gyntaf Cymru

Josh Law – Fforwm Cymru Gyfan

Kai Jones – Anabledd Dysgu Cymru

Katherine Baker – Dosh

Kelly Stuart – Pobl yn Gyntaf Cymru

Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lucy O'Leary – Anabledd Dysgu Cymru

Marg McNiel – See Around Britain

Rachel Martin – Dal Dwylo

Richard Redmond – Cyswllt Conwy

Ritchie Wood – Principality Care Cyf

Sally Thomas – Rhiant

Sarah Washbrook – Rhiant

Sion Jones – Mencap Cymru

Sophie Hinksman – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Stephen Jones – Llywodraeth Cymru

Tracy Thomas – Pobl yn Gyntaf Sir Benfro

Victoria Waller – Ffrindiau Gigiau Cymru

Wayne Crocker – Mencap Cymru

Zoe Richards – Anabledd Dysgu Cymru



**Pobl a ddywedodd nad oedden
nhw'n gallu dod i'r cyfarfod:**

Neb

1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Williams** yn Aelod o'r Senedd a hi yw **Cadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.



Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.



Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys y siaradwyr a Ken Skates. Mae Ken Skates yn Aelod o'r Senedd. Fe yw Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

2. Cyflwyniad am basiau bws a phroblemau trê



Siaradodd Joe Powell a Sophie Hinksman o Bobl yn Gyntaf Cymru Gyfan am rai o'r problemau sydd gan bobl ag anabledd dysgu wrth ddefnyddio bysiau a threnau.



Cafodd rhai pobl anabl eu tocynnau bws am ddim eu hatal pan oedd eu **PIP** wedi newid.

PIP yw Taliad Annibyniaeth Bersonol. Arian y mae rhai pobl anabl yn ei gael gan y llywodraeth ar gyfer cefnogaeth ychwanegol.



Os yw **PIP** rhywun wedi newid, gallai eu tocyn bws stopio gweithio yn sydyn.



Dyw'r rheolau ynglŷn â **tocynnau bws cydymaith** ddim yn glir.



Mae **tocyn bws cydymaith** yn gadael i rywun deithio gyda chi er mwyn rhoi help i chi.



Gall gwneud cais am bas bws fod yn anodd iawn. A gall gymryd hyd at 7 wythnos i gael ateb.



Roedd rhai pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth yn ei chael hi'n anoddach cael tocyn bws oherwydd na allwch weld eu hanableddau'n hawdd.



Mae meddygon yn codi dros £30 i ysgrifennu llythyr meddygol. Yn aml mae angen y llythyrau hyn i brofi bod angen tocyn bws ar rywun.



Mae llai o wasanaethau bysiau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Powys neu Sir Benfro.



Mae tacsis yn costio gormod o arian.



Nid oes digon o arosfannau bysiau. Ac mae'r wybodaeth mewn arosfannau bysiau yn aml ar goll, yn anghywir, neu'n anodd ei deall.



Nid yw bysiau bob amser yn stopio'n ddigon agos at y palmant. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd mynd ar y bws a dod i ffwrdd o'r bws.



Dyw rhai gyrwyr ddim yn defnyddio'r rampiau ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â cherddwyr.



Gall bysiau fod yn rhy llawn. Weithiau mae ymddygiad drwg a bwlio ar fysiau.



Gall gwybodaeth teithio fod yn anghywir neu'n anodd ei deall. Mae apiau teithio yn anodd eu defnyddio.



Weithiau mae bysiau a threnau'n cael eu canslo heb unrhyw rybudd.

3. Adroddiad Cyflwr y Genedl



Rhannodd Sara Pickard a Sion Jones o Mencap Cymru adroddiad gan Mencap Cymru o'r enw 'Cyflwr y Genedl'.



Ar gyfer yr adroddiad, gofynnwyd cwestiynau i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd mewn arolwg. Roedd gan yr arolwg dros 40 o gwestiynau. Atebodd dros 400 o bobl. Defnyddiwyd dros 200 o atebion yn yr adroddiad.



Mae'r adroddiad yn ymwneud â iechyd, gofal cymdeithasol, cymunedau, perthnasoedd a thrafnidiaeth.

Beth mae'r adroddiad yn ei ddweud am drafnidiaeth:



Nid yw bron i 1 o bob 3 o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.



Nid oes gan 3 o bob 10 o bobl docyn bws. Isel **PIP** mae sgoriau yn aml yn atal pobl rhag gallu cael tocyn bws.



Does gan tua hanner y boblogaeth ddim **tocyn bws cydymaith**.



Nid oedd 3 o bob 10 o bobl yn gallu defnyddio arian parod i brynu tocynnau, bwyd na diodydd ar drafnidiaeth gyhoeddus.



Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu â phleidiau gwleidyddol ac Aelodau'r Senedd cyn etholiad Senedd 2026.



Dangosodd Sara a Sion fideo hefyd. Roedd y fideo o arolwg No Journey Left Behind gan Sefydliad Motability, sy'n cefnogi pobl anabl gyda chludiant.

4. Cymorth i Deithwyr



Siaradodd Sally Thomas eto am ei mab Danny a **Cymorth i Deithwyr**.

Cymorth gan staff wrth deithio ar y trên yw **Cymorth i Deithwyr**.



Gwylodd y grŵp fideo lle siaradodd Danny am ddefnyddio **Cymorth i Deithwyr**.



Mae Danny yn aelod o Theatr Hijinx ac mae eisiau bod yn actor. Dechreuodd gwrs drama yng Nghaerdydd ond mae angen help arno i deithio yno o Abertawe.



Dywedodd Sally bod **Cymorth i Deithwyr** wedi gweithio yn dda yng ngorsaf drenau Abertawe ond nid yng Nghaerdydd. Cafodd Danny ei adael ar ei ben ei hun unwaith yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd yn y nos. Roedd hyn yn anniogel.



Nid oedd llawer o deithiau wedi'u cefnogi'n iawn ond fe'u marciwyd ar y system fel rhai llwyddiannus.



Gofynnodd Sally am well hyfforddiant a chynllunio staff, ac i gwmnïau trên wrando ar bobl sy'n wynebu problemau wrth ddefnyddio eu gwasanaethau.



Mae Sally eisïau i **Cymorth i Deithwyr** weithio bob tro, i fod yn ddiogel, ac i gynnwys pawb.

5. Trafnidiaeth hygyrch



Mae **hygyrch** yn golygu bod rhywbeth yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, gan gynnwys pobl anabl.



Siaradodd Adele-Rose Morgan am ei mab Rhys. Mae gan Rhys anabledd dysgu. Mae ganddo anabledd corfforol hefyd ac mae'n defnyddio cadair olwyn.



Roedd Rhys eisiau teithio ar fws i'r ysgol a'r coleg. Ond roedd y bysiau'n annibynadwy a doedden nhw ddim yn cyrraedd pan oedden nhw i fod i wneud.



Dywedodd gyrrwr wrth Rhys na allai fynd ar y bws oherwydd bod yr unig le i gadeiriau olwyn yn cael ei ddefnyddio gan fygi. Bu'n rhaid i deithiwr arall ddweud wrth y gyrrwr fod gan Rhys hawl i ddefnyddio'r lle i gadair olwyn.



Nid oedd unrhyw signalau sain ar groesfannau ffyrdd ger y coleg, roedd y botymau'n rhy fach, ac nid oedd unrhyw gyrbiau isel.



Mae gyrbiau isel yn helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â chymhorthion cerdded i fynd ar ac oddi ar y palmant.



Teithiodd Rhys a'i ffrindiau i Gaerdydd ar y trê. Mae ei holl ffrindiau'n awtistig. Fe helpodd gorsaf Abertawe'n dda, ond ni wnaeth gorsaf Caerdydd.



Ar drên y Great Western, dim ond yn y cerbyd dosbarth cyntaf roedd lle i gadeiriau olwyn. Roedd hyn yn golygu na allai ffrindiau a rhieni eistedd gyda'i gilydd. Roedd y staff yn anghwrtais pan ofynnodd Adele am help.



Roedd dau o ffrindiau Rhys yn ofidus iawn. Maen nhw nawr yn ofni teithio ar y trê eto.



Mae bysiau i gyrraedd lleoliad gwaith newydd Rhys naill ai'n rhy gynnar neu'n rhy hwyr. Nid oes tacsis na chluddiant cymunedol ar gael i'w gludo yno. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'w rieni ei gymryd a'i ddwyn adref.



Oherwydd bod cludiant yn annibynadwy ac yn anodd ei ddefnyddio:

- Mae Rhys yn ofni bod yn hwyr neu gael ei adael ar ôl.
- Ni all wneud pethau y mae eu hangen arno neu y mae eisiau eu gwneud.




Dyweddodd Adele fod popeth yn cymryd ymdrech a chynllunio ychwanegol. Dywedodd fod rhaid dylunio systemau i gynnwys pawb.

6. Ymateb gan Ken Skates



Gofynnodd Sioned i Ken Skates ymateb i'r cyflwyniadau. Diolchodd Ken Skates i bawb a siaradodd a dywedodd fod profiad bywyd yn bwysig.



Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun o'r enw Trafnidiaeth i Bawb. Maen nhw eisiau i drafnidiaeth fod yn rheolaidd, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.



Bydd staff Trafnidiaeth Cymru yn cael hyfforddiant am y model cymdeithasol o anabledd. Golyga hyn:

- Nid y person yw'r broblem.
- Rhwystrau yw'r broblem.
- Rhaid cael gwared ar rwystrau er mwyn i bobl allu byw eu bywydau.



Rhaid i staff wneud yr hyfforddiant hwn.

Cynlluniau i wella trafnidiaeth:



Mae 27,000 o arosfannau bysiau ledled Cymru yn cael eu gwirio. Mae angen cyrbiau isel newydd, palmentydd gweadog ac amserlenni digidol ar lawer. Bydd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion y bobl sy'n eu defnyddio.



Bydd lle i gadeiriau olwyn ar y bysiau. A bydd bysiau a threnau mwy **hygyrch** yn cael eu prynu.



Os oes gan drên docynnwr, gellir defnyddio arian parod i brynu tocynnau. Ni ellir defnyddio arian parod i brynu bwyd na diod ar drên, ond weithiau gall staff roi diodydd am ddim os na all rhywun dalu â cherdyn.



Mae rhai cyngorau wedi cael problemau i fynd trwy'r holl geisiadau am basiau bws yn eu hardal. Felly maen nhw'n ceisio cael mwy o staff i fynd trwy'r ceisiadau'n gyflymach.



Os ydyn nhw'n cael PIP nawr, dim ond bob 10 mlynedd y mae angen i bobl adnewyddu eu tocyn bws, yn lle bob tair blynedd.



Mae Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar ddileu'r dyddiad dod i ben ar basiau bws ar gyfer y grŵp hwn o bobl yn y dyfodol.



Rhaid i **Cymorth i Deithwyr** weithio'n iawn ym mhob gorsaf i bawb sydd angen y gwasanaeth hwn. Mae mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ond pan fydd yn mynd o chwith, gall fod yn ofidus iawn. Dyma rywbeth y bydd Ken Skates yn edrych arno.



Mae Trafnidiaeth Cymru yn cael cyngor gan bobl anabl fel rhan o'u Panel Mynediad a Chynhwysiant. Mae rhai aelodau o'r panel hefyd yn gwirio pa mor hygyrch yw gwasanaethau trafnidiaeth ac a oes angen newidiadau.



Mae cynllun tocynnau bws newydd gwerth £1 i bobl ifanc yng Nghymru. Ond dim ond os yw bysiau'n rhedeg ar amser cywir ac yn mynd lle mae pobl angen iddyn nhw fynd y mae hyn yn gweithio.



Mae Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r canllawiau ar deithio gan ddysgwyr i helpu plant a phobl ifanc i gyrraedd yr ysgol neu'r coleg.

7. Cwestiynau ac atebion



Diolchodd Sioned i Ken Skates a gofynnodd i'r grŵp a oedd ganddyn nhw unrhyw gwestiynau.



Dyweddodd Victoria nad oes Wi-Fi ar rai bysiau a Wi-Fi gwael ar drenau. Mae hyn yn broblem oherwydd weithiau nid yw apiau tocynnau yn gweithio heb signal.



Dyweddodd Ken Skates na all Llywodraeth Cymru orfodi cwmnïau i ddarparu Wi-Fi ar hyn o bryd. Ond yn y dyfodol, gofynnir i unrhyw gwmni bysiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddarparu Wi-Fi.



Dyweddodd Daniel nad oes gwasanaeth bws wedi bod mewn rhai ardaloedd o Gastell-nedd ers chwech mlynedd. Dyweddodd hefyd y dylai pob bws gael cyhoeddiadau.



Dyweddodd Ken Skates fod Llywodraeth Cymru eisiau mwy o fysiau mewn ardaloedd lle nad oes llawer o wasanaethau.



Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru benderfynu faint o arian i'w wario ar wasanaethau bysiau lleol. Cytunodd hefyd y dylai cyhoeddiadau fod ar bob bws.



Gofynnodd Wayne sut y bydd cwmnïau newydd yn darparu'r gwasanaethau bysiau sydd eu hangen ar bobl o dan y Bil Bysiau. Mae'r Bil Bysiau yn gyfraith newydd sy'n cael ei chynllunio ar gyfer Cymru.



Dywedodd Ken Skates fod gan Gymru'r bysiau hynaf ym Mhrydain. Y flwyddyn nesaf bydd £29 miliwn yn cael ei ddefnyddio i brynu bysiau newydd a lleoedd lle cedwir bysiau.



Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmnïau bysiau i osod safonau da ar gyfer gwasanaethau bysiau ledled Cymru.

8. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol



Gofynnodd Sioned i Ken Skates ateb y grŵp mewn llythyr ar ôl y cyfarfod yn egluro'r pwyntiau a wnaeth heddiw.



Yna bydd ei lythyr yn cael ei rannu gydag aelodau'r grŵp.



Diolchodd Sara a Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod.

9. Y cyfarfod nesaf



Cynhelir y cyfarfod nesaf ar:

Ddydd Mercher 4 Mawrth 2026 am 12-1pm.

Ar-lein ar Zoom.



Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.



Dylai unrhyw un sydd â syniadau ar gyfer y cyfarfod anfon e-bost at

Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk neu

Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.



Gallwch ddod o hyd i fersiynau hawdd-eu-darllen o holl agendau a nodiadau'r grŵp trawsbleidiol yma:

<https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/>

Geiriau anodd

Cadeirydd

Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

Cymorth i Deithwyr

Cymorth gan staff wrth deithio ar y trênn yw Cymorth i Deithwyr.

Hygyrch

Mae hygyrch yn golygu bod rhywbeth yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, gan gynnwys pobl anabl.

PIP neu Taliad Annibyniaeth Bersonol

PIP yw Taliad Annibyniaeth Bersonol. Arian y mae rhai pobl anabl yn ei gael gan y llywodraeth ar gyfer cefnogaeth ychwanegol.

Tocyn bws cydymaith

Mae tocyn bws cydymaith yn caniatáu i rywun deithio gyda chi i'ch cefnogi.